**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (SILURIAN ROAD, GWNDY, CIL-Y-COED NP26 3EL) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Sir Fynwy ar 18 Mawrth 2018 o dan y cyfeirnod DC/2016/00883 a'r gymeradwyaeth materion a gedwir yn ôl a roddwyd ar 21 Rhagfyr 2022 gyda'r cyfeirnod DM/2021/00357, a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Silurian Road, Gwndy, Cil-y-coed NP26 3EL) 2023 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yng Nghyngor Tref Magwyr gyda Gwndy, The Hayloft, y tu ôl i'r Swyddfa Bost, Magor Square, Cil-y-coed NP26 3EP neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1893107.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 5 Rhagfyr 2023, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (SILURIAN ROAD, UNDY, CALDICOT NP26 3EL) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described Schedule 1 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be to be carried out in accordance with outline planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Monmouthshire County Council on 18 March 2018 with reference number DC/2016/00883 and the reserved matters approval granted on 21 December 2022 with reference number DM/2021/00357, described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Silurian Road, Undy, Caldicot NP26 3EL) Order 2023 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal opening hours at Magor with Undy Town Council, The Hayloft, Rear of Post Office House, Magor Square, Caldicot NP26 3EP or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1893107.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 5 December 2023 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darnau o briffordd sydd i'w cau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a leolir ar ochr orllewinol Silurian Road, i'r de-orllewin o'r gyffordd i Pankhurst Drive, Gwndy, Cil-y-coed, sy'n 37 o fetrau yn y man hiraf ac yn 5.4 metr yn y man lletaf a ddangosir â llinellau sebra, ac y rhoddir y cyfeirnod A iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a leolir ar ochr orllewinol Silurian Road, gyferbyn â'r gyffordd i Pankhurst Drive, Gwndy, Cil-y-coed, sy'n 71 o fetrau yn y man hiraf ac yn 2.5 metr yn y man lletaf a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod B iddo ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

**Y Datblygiad**

Datblygu 13.8 o hectarau o dir at ddefnydd preswyl a chyflogaeth; hyd at 266 o unedau preswyl arfaethedig a thua 5575 o fetrau sgwâr o ofod llawr B1 yn Fferm Rockfield, The Elms, Gwndy, Cil-y-coed, Sir Fynwy.

## SCHEDULE 1
**(All measurements are approximate)**

**Lengths of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of highway located on the western side of Silurian Road, south west of the junction to Pankhurst Drive, Undy, Caldicot, with a maximum length of 37 metres and a maximum width of 5.4 metres shown by zebra hatching, and given the reference A on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located on the western side of Silurian Road, opposite the junction to Pankhurst Drive, Undy, Caldicot, with a maximum length of 71 metres and a maximum width of 2.5 metres shown by zebra hatching and given the reference B on the deposited plan.

## SCHEDULE 2

**The Development**

Development of 13.8 hectares of land for residential use and employment use; up to 266 Proposed residential units and approximately 5575 square metres of B1 floor space at Rockfield Farm, The Elms, Undy, Caldicot, Monmouthshire.